Mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau yn gwerthfawrogi sylwadau ynglŷn â'r gwaith y maent yn ei wneud a'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig i ofalyddion.

Mae'n dda gan sefydliadu glywed gan bobl boed hynny'n ganmoliaeth, yn awgrym neu'n gŵyn. Felly os ydych chi wedi bod yn fodlon iawn ar wasanaeth a gawsoch rhowch wybod i'r sefydliad! Fe allwch chi wneud hyn trwy lythyr neu dros y ffôn.

Mae gan Adran Gofal Cymdeithasol a Thai'r Cyngor systemau ffurfiol ac anffurfiol i ddarganfod eich sylwadau a'ch syniadau ynglŷn â'u gwaith. Fe allwch chi ofyn am gopi o'r Siarter Gofal Cymdeithasol sy'n dweud wrthoch chi beth fedrwch chi ei ddisgwyl gan wasanaeth. Mae copi hefyd o ddogfen o'r enw Cynllun Gofal Cymdeithasol & Gwasanaethau Plant sy'n rhoi manylion y gwaith y mae'r Isadrannau'n ei gynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim gan Adran Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Penfro yn Neuadd y Sir.

Os ydych chi'n anfodlon ar unrhyw wasanaeth yr ydych chi neu'r sawl sydd yn eich gofal wedi ei dderbyn, boed hynny gan sefydliad statudol neu wirfoddol, yna mae gennych yr hawl i leisio eich barn. Yn gyntaf, y peth gorau pob tro yw trafod hyn gyda'r sawl sy'n rheoli'r gwasanaeth. Mae modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Os, fodd bynnag, yr ydych yn dal yn anfodlon ac eisiau gwneud cwyn ffurfiol, fe allwch chi ysgrifennu at y person perthnasol sydd wedi ei nodi yn y rhestr ganlynol.

Mae gan lawer o sefydliadau gwirfoddol mawr weithdrefn gwyno ffurfiol. Bydd rhaid i chi ofyn am gopi o unrhyw daflen a gyhoeddir.

Os bydd arnoch chi angen cymorth i ysgrifennu llythyr i gwyno, fe allai eich swyddfa leol Cyngor ar Bopeth eich helpu.

Cysylltiadau ar gyfer Cwynion Swyddogol - Sefydliadau Statudol:-

Adran Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro
Joy Hughes, Swyddog Cwynion
2B Neuadd y Sir,
Hwlffordd
Sir Benfro SA61 1TP
✆ (01437) 775503
E-bost: joy.hughes@pembrokeshire.gov.uk

Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro:
Louise Morris - Rheolwr Busnes
Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro
Uned 4 - Llys Myrddin
Hwlffordd
Sir Benfro SA61 1PH
✆ (01437) 771223
E-bost: comps@pembrokeshirelhb.wales.nhs.uk

Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen:
Joan Stephens - Ysgrifennydd y Cwmni
Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
Ysbyty Cyffredinol y Llwyn Helyg
Heol Abergwaun
Hwlffordd
Sir Benfro
✆ (01437) 764545

Cyngor Iechyd Cymunedol Sir Benfro:
Suite 2
Cedar Court
Haven's Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS
✆ (01646) 697610
Ffacs: (01646) 697256

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed CF35 5LJ
✆ (01656) 641150
Ffacs: (01656) 641 199

TAFLENNI CYSYLLTIADAU CYFFREDINOL